EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD 2024

Testunau Gwaith Cartref

Rhaid i'r ceisiadau gyrraedd erbyn **ddydd Gwener 8 Rhagfyr 2023**
Beirniaid Rhyddiaith: **Meg Elis**
Beirniaid Barddoniaeth: **Llŷr Gwyn Lewis**
Beirniad Ffotograffiaeth: **Aled Jenkins**
Beirniad Cerddoriaeth: **Geraint Cynan**

1	Rhyddiaith blwyddyn 2 i 4	Anifail	£5
2	Rhyddiaith blwyddyn 5 i 6	Cerdded	£5
3	Rhyddiaith blwyddyn 7 i 9	Newid	£10
4	Rhyddiaith blwyddyn 10 i 13	Rhith	£10
5	Y Fedal Ryddiaith	Cyngor. Darn o ryddiaith heb fod dros 2,000 o eiriau. Cystadleuaeth agored i bawb.	Medal a £50
6	Llên meicro	Dau. Heb fod dros 500 o eiriau. Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
7	Adolygiad	Adolygiad o 'Llygad Dieithryn' gan Simon Chandler, heb fod dros 1,000 o eiriau.	£10
8	Rhyddiaith y dysgwyr	Agor	£10
9	Barddoniaeth blwyddyn 2 i 4	Y Sŵ	£5
10	Barddoniaeth blwyddyn 5 i 6	Fy milltir sgwâr	£5

11	Barddoniaeth blwyddyn 7 i 9	Cyfrinach	£10
12	Barddoniaeth blwyddyn 10 i 13	Syrthio	£10
13	Y Gadair	Cerdd neu ddilyniant o gerddi caeth neu rydd heb fod dros 75 o linellau ar y testun 'Chwilio'.	Cadair a £50

14	Triban	Bae	£10
15	Englyn	Dwylo	£10
16	Cerdd rydd	Stryd neu Strydoedd	£20
17	Cerdd heb fod dros 20 llinell ar unrhyw fesur caeth	Gwaith	£20
18	Cyfansoddi emyn	Testun agored. Cystadleuaeth agored i bawb.	£10
19	Barddoniaeth y dysgwyr	Mynydd	£10
20	Tlws yr Ifanc (Yn agored i unigolion 25 oed ac iau yn unig)	Gwaith llenyddol. Cerdd gaeth neu rydd neu'n ddarn o ryddiaith, ar y testun 'Cysylltiad'.	Tlws yr ifanc a £50

21	Cyfansoddi cerddoriaeth cynradd	Fy nychymyg i	£10
22	Cyfansoddi cerddoriaeth uwchradd	Delweddau	£15
23	Cyfansoddi cerddoriaeth agored	Adleisiau'r gorffennol	£50
24	Cyfansoddi emyn dôn	I gyd fynd â geiriau buddugol cystadleuaeth cyfansoddi emyn 2023. Gellir cael copi o'r geiriau gan bwyllgor yr Eisteddfod	£20
25	Ffotograffiaeth cynradd	Siapau	£5
26	Ffotograffiaeth uwchradd	Adlewyrchiadau	£10
27	Ffotograffiaeth agored	Symudiadau	£15

Gweler y rheolau llawn ar www.eisteddfodcaerdydd.cymru

1. Rhaid i geisiadau cystadlaethau gwaith cartref gyrraedd erbyn **18:00 ddydd Gwener 8 Rhagfyr 2023.**
2. Gallwch gyflwyno eich ceisiadau ar wefan yr eisteddfod, drwy'r porthol. Ewch i'r Porthol llwytho gwaith cartref neu cyflwynwch eich cais drwy ebostio cystadlu@eisteddfodcaerdydd.cymru Os ydych yn athro ysgol sy'n dymuno cyflwyno ceisiadau ar ran eich disgyblion (sawl cais ar gyfer yr un gystadleuaeth) fe allwch wneud ar ebost.
3. Gallwch gystadlu cynifer o weithiau ag y dymunwch ym mhob cystadleuaeth. Mae'n rhaid cyflwyno pob ymgais ar wahân o dan ffugenw gwahanol bob tro.
4. Yn dilyn yr eisteddfod byddwn yn cyhoeddi y darnau buddugol yn y Dinesydd. Os nad ydych am i'ch cais gael ei gynnwys, os ydych yn fuddugol, rhaid i chi roi gwybod i ni pan fyddwch yn cyflwyno'r cais.
5. Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth.